# Egwyddorion Arfer Gorau ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio

Crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 19 Ebrill 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ... 3
2. Ein dull cyffredinol ... 4
3. Cynnydd ac effaith technolegau'r dyfodol ... 7
4. Defnydd o'r egwyddorion a rôl Ofcom ... 8
5. Monitro, gwerthuso a thryloywder ... 10
6. Bod yn rhagweithiol a rôl rhanddeiliaid allanol ... 12
7. Ymyriadau wedi'u teilwra ... 13

## Atodiad

A1. Diffiniadau ar gyfer ymyriadau o fewn y cwmpas ... 14

# 1. Trosolwg

## Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn cyhoeddi 'cais am fewnbwn' ein Hegwyddorion Arfer Gorau arfaethedig ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio ar 31 Hydref 2023, fe wnaethom wahodd rhanddeiliaid i'n helpu i ddeall sut beth yw ymwybyddiaeth dda o'r cyfryngau 'drwy ddylunio' ar gyfer gwasanaethau gemau, cyfryngau cymdeithasol, chwilio a rhannu fideos. Yn ystod y cais am fewnbwn, gofynnwyd am farn ar sut i wella'r egwyddorion hyn i'w gwneud yn fwy defnyddiol ar gyfer gwahanol wasanaethau.

1.2 Cawsom 21 ymateb i gyd: 3 ymateb gan lwyfannau/cynrychiolwyr llwyfannau (Reddit, Google ac un o weithwyr Roblox), 4 ymateb academaidd (Dr Elinor Carmi, Dr Gianfranco Polizzi a'r Athro Simeon Yates, yr Athro Adrienne Evans – a oedd hefyd yn cynrychioli Dr Lindsay Balfour, Dr Sarah Kate Merry a Dr Marcus Maloney - a'r Athro Jonathan Hardy – a oedd yn cynrychioli'r Prosiect Llywodraethu Cynnwys wedi'i Frandio), 9 ymateb gan randdeiliaid 'trydydd sector' (Media Smarts, South West Grid for Learning, Sefydliad Good Things, Parent Zone, Childnet, Internet Safe Kids Africa, Glitch, Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth, Sefydliad 5 Rights), 2 ymateb gan 'fentrau'r diwydiant' (y Gynghrair Tlodi Digidol, Internet Matters), 2 ymateb gan rwydwaith/fforwm ar-lein (Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a Chanolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU/UKSIC) ac un ymateb gan Werthwr Ymddiriedaeth a Diogelwch (Logically Facts).

## Y Camau Nesaf

1.3 Yn dilyn y cais am fewnbwn, rydym wedi bod yn ystyried yr amrywiaeth o adborth a ddaeth i law i ailadrodd a gwella'r Egwyddorion Arfer Gorau arfaethedig ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio, y mae'r fersiwn presennol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

1.4 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartïon perthnasol wrth i ni fwrw ati gyda'r gwaith hwn drwy eu hannog i fabwysiadu'r egwyddorion a'u rhoi ar waith.

# 2. Ein dull cyffredinol

## Y deipoleg

2.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r deipoleg a ddefnyddiwyd i gategoreiddio 'ymyriadau ar-lwyfan' (hy labeli, troshaenau, sbardunau/ffenestri naid, hysbysiadau ac adnoddau).[1] Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r dull gweithredu a ddewiswyd gan raglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau a'i hymdrechion i feithrin ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y themâu[2] a ddefnyddiwyd yn yr egwyddorion yn gynhwysfawr.

2.2 Er bod yr ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan, mynegodd rhai ohonynt yr hoffent weld ymyriadau ychwanegol yn cael eu cynnwys. Yn ôl y prosiect Llywodraethu Cynnwys wedi'i Frandio, dylid cynnwys canllawiau ynghylch datganiadau datgelu ar gynnwys masnachol a noddedig. Byddai'r Athro Adrienne Evans (a oedd hefyd yn cynrychioli Dr Lindsay Balfour, Dr Sarah Kate Merry a Dr Marcus Maloney) wedi hoffi gweld caledwedd a meddalwedd yn cael eu cynnwys yn yr egwyddorion. Yn olaf, roedd Parent Zone yn teimlo bod yr egwyddorion presennol yn canolbwyntio ar 'ychwanegion' yn hytrach nag ar ddyluniad go iawn llwyfannau.

2.3 Mynegwyd bod yr ymyriadau a restrwyd yn fframio defnyddwyr yn bennaf fel defnyddwyr cynnwys ar lwyfannau yn hytrach na chynhyrchwyr cynnwys o'r fath. Dyna pam mae South West Grid for Learning (SWGfL) wedi awgrymu y dylai Ofcom gynnwys ymyriadau sydd wedi'u targedu at gynhyrchwyr cynnwys ar wasanaethau o fewn y cwmpas.

2.4 Pwysleisiodd rhai ymatebwyr na allai ymyriadau ar-lwyfan weithio ar wahân i fentrau eraill (ee cwricwlwm, ymyriadau wyneb yn wyneb, ac ati). Tynnodd Google sylw at y ffaith bod angen i unrhyw ymdrechion ar-lwyfan gael eu hategu gan fentrau oddi ar y llwyfan.

2.5 Mynegodd ymatebwyr o lwyfannau rai pryderon am yr egwyddorion, yn enwedig mewn perthynas â theilwra ymyriadau a phroblemau posibl gyda chanllawiau preifatrwydd.

2.6 Roedd Reddit o'r farn y dylai ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ymdrechion dylunio ganolbwyntio ar ddyluniad craidd gwasanaeth yn hytrach na bod yn ddull gweithredu o'r brig i'r bôn. Dyna pam mae Reddit wedi argymell y dylai Ofcom *'ystyried strwythur a dyluniad [llwyfan], yn ogystal ag ymyriadau haenog, wrth asesu arferion gorau'*.[3]

2.7 Roedd Google o'r farn y gallai'r awgrym i gyhoeddi effeithiau ymyriad fod yn '*feichus*' ac o bosibl greu '*diwylliant o osgoi risg*'.[4]

---

[1] Ofcom. (2023). Egwyddorion Arfer Gorau ar gyfer ymyriadau ar-lwyfan i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, t. 10

[2] Ymhlith y themâu a ddefnyddiwyd mae blaenoriaeth, tryloywder ac atebolrwydd; dyluniadau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac ymyriadau amserol; a monitro a gwerthuso.

[3] Gweler Ymateb Reddit (ofcom.org.uk)

[4] Gweler Ymateb Google (ofcom.org.uk)

## Bylchau penodol:

2.8 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n dull gweithredu a'n teipoleg, roedd rhanddeiliaid yn rhannu rhai pryderon penodol ynghylch yr egwyddorion arfaethedig:

a) Tynnodd un ymatebydd sylw at y risg o fod yn amddiffynnol yn hytrach na meithrin meddwl beirniadol drwy ganolbwyntio ar newid ymddygiad defnyddwyr.
b) O ystyried y risg o darfu a blinder defnyddwyr, nododd rhai ymatebwyr y gallai ymyriadau arwain at orlwytho gwybyddol a rhoi'r baich ar ddefnyddwyr.
c) Mynegodd un ymatebydd bryderon hefyd ynghylch pwysoliad ystyriaethau busnes ym mhroses gwneud penderfyniadau llwyfannau ac roedd yn ofni y byddai'r rhain yn cael blaenoriaeth dros lesiant defnyddwyr.
d) Mynegodd un ymatebydd bryder, drwy ganolbwyntio ar ymyriadau ar-lwyfan, fod risg o orddibyniaeth ar dechnolegau i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
e) Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd yr ymyriadau a restrir ar hyn o bryd yn cefnogi defnyddwyr i ddeall yr amgylchedd ar-lein y maent yn gweithredu ynddo (ee algorithmau, ac ati).
f) Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod yr egwyddorion yn cyfeirio at sbectrwm eang o niwed ar-lein ac awgrymwyd y dylai Ofcom ystyried ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn perthynas â niwed penodol. Felly, fe wnaeth yr Athro Adrienne Evans, Dr Lindsay Balfour, Dr Sarah Kate Merry a Dr Marcus Maloney ein hannog i ystyried sut gellid defnyddio adnoddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i ddiogelu menywod a merched ar-lein yn fersiwn nesaf yr egwyddorion.
g) Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cyd-ddylunio ac ymgysylltu â sefydliadau arbenigol ac arbenigwyr i ddatblygu'r egwyddorion hyn sy'n canolbwyntio ar niwed.

**Y PRIF NEGESEUON**

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r deipoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r egwyddorion. Hoffai rhai ymatebwyr weld elfennau eraill yn cael eu cynnwys yn y rhestr o enghreifftiau (ee ffocws penodol ar gynnwys noddedig, caledwedd, ymwybyddiaeth o algorithmau, ac ati).
- Mynegwyd pryder bod ymyriadau presennol yn fframio defnyddwyr yn bennaf fel defnyddwyr cynnwys yn hytrach na chynhyrchwyr cynnwys.
- Mae ymatebwyr o lwyfannau ac ymatebwyr nad ydynt o lwyfannau wedi pwysleisio pwysigrwydd ategu ymdrechion ar-lein â mentrau all-lein (ee ymyriadau wyneb yn wyneb, ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn ysgolion, ac ati).
- Mynegodd ymatebwyr o lwyfannau bryderon am yr egwyddorion a'r effaith bosibl ar eu busnesau (ee proses feichus, risg o lesteirio arloesedd, ac ati).
- Mae ymatebwyr wedi mynegi bylchau penodol y gellid rhoi sylw iddynt yn y fersiwn nesaf o'r egwyddorion.

## Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio a'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein

Tynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent o lwyfannau sylw at rôl rheoleiddio ym mhrosiect Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn yn annog

cydlyniant parhaus a phenodol pellach rhwng y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a phrosiect Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio.

2.9 Galwodd y Gynghrair Tlodi Digidol am i '*ddiogelwch ar-lein gael ei gynnwys fel egwyddor allweddol mewn unrhyw strategaeth sy'n rhoi blaenoriaeth i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau*.'[5]

2.10 Roedd eraill yn galw am gynnwys ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn dyletswyddau statudol. Gofynnodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a ddylai Ofcom fod yn defnyddio'r cyfle hwn i ymgorffori Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio yng Nghodau Ymarfer y Ddeddf.

2.11 Roedd Rhwydwaith y Ddeddf hefyd yn credu y gallai ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fod yn bwysig i amddiffyn, yn benodol, '*plant nid yn unig rhag troseddau anghyfreithlon ond rhag deunydd "cyfreithiol" ond niweidiol.'*[6]

### Y PRIF NEGESEUON

- Roedd rhai ymatebwyr yn galw am ragor o gydgysylltu clir rhwng y prosiect Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio a Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

[5] Gweler Ymateb y Gynghrair Tlodi Digidol (ofcom.org.uk)
[6] Gweler Ymateb Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (ofcom.org.uk)

# 3. Cynnydd ac effaith technolegau'r dyfodol

3.1 Wrth i dechnoleg a'i risgiau newid yn gyflym, pwysleisiodd llawer o'r cyfranogwyr y dylai'r egwyddorion fod yn ddigon hyblyg i fod yn berthnasol o hyd ac i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y byddai technolegau newydd yn newid y sgiliau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr i ffynnu ar-lein.

3.2 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr egwyddorion yn gymharol addas ar gyfer y dyfodol ac yn parhau i fod yn berthnasol er gwaethaf newidiadau technolegol. Awgrymodd rhai, fodd bynnag, y gallai'r fersiwn newydd o'r egwyddorion dynnu sylw at y ffaith bod yr ymyriadau a restrir yn enghreifftiau yn hytrach na'n rhestr hollgynhwysfawr.

3.3 Soniwyd am rôl Deallusrwydd Artiffisial gan nifer o ymatebwyr a oedd o'r farn ei fod yn gallu newid pethau o ddifrif, a mynegwyd pryderon y gallai datblygiadau cyflym mewn technoleg ehangu'r rhaniad digidol presennol.[7] Ar yr un pryd, roedd newidiadau a achoswyd gan Ddeallusrwydd Artiffisial yn golygu y bydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn dod yn elfen bwysicach fyth i ddefnyddwyr ffynnu ar-lein.

3.4 Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod Deallusrwydd Artiffisial yn drawsnewidiol ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Roedd Canolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU (UKSIC) o'r farn y gellid defnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial i wella'r adnoddau presennol ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, yn enwedig o ran monitro a gwerthuso.[8] Hyd yn oed yn wyneb datblygiadau technolegol newydd ac annisgwyl, roedd defnyddio ymyriadau ar-lwyfan yn cael ei ystyried yn werthfawr o ran helpu defnyddwyr i adnabod a deall yn well y cynnwys maen nhw'n ei weld. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth, er enghraifft, y gellid defnyddio labeli i wneud defnyddwyr yn ymwybodol bod delwedd neu fideo wedi cael ei gynhyrchu gan Ddeallusrwydd Artiffisial fel enghraifft o ymyriad ar-lwyfan a allai gefnogi defnyddwyr i lywio drwy'r technolegau hyn.[9]

**Y PRIF NEGESEUON**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod Deallusrwydd Artiffisial yn berthnasol iawn i faes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gan y bydd yn debygol o effeithio ar y sgiliau sydd eu hangen er mwyn i ni ffynnu ar-lein.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod Deallusrwydd Artiffisial yn gyfle posibl i wella ymyriadau presennol ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod yr egwyddorion yn addas ar gyfer y dyfodol ond awgrymwyd y dylem bwysleisio'r ffaith nad yw'r rhestr bresennol o ymyriadau'n gynhwysfawr.

---

[7] Gweler Ymateb Sefydliad Good Things (ofcom.org.uk)
[8] Gweler Ymateb Canolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU (ofcom.org.uk)
[9] Gweler Ymateb yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth (ofcom.org.uk)

# 4. Defnydd o'r egwyddorion a rôl Ofcom

4.1 Roedd ymatebwyr o bob categori yn pwysleisio bod angen i Ofcom feddwl yn strategol am gynyddu i ba raddau y mae'r llwyfannau'n defnyddio'r egwyddorion.

4.2 Roedd Ofcom yn cael ei weld fel pont bosibl, yn cysylltu gwahanol weithredwyr drwy greu gofod cydweithio pwrpasol i randdeiliaid rannu gwybodaeth a chreu camau gweithredu. Awgrymwyd y dylai Ofcom gymryd rôl gynnull a dylanwadu i feithrin diwylliant o ddysgu ar y cyd rhwng rhanddeiliaid (ee y byd academaidd, y trydydd sector, diwydiant, ac ati). Gallai hyn yn ei dro helpu Ofcom i ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector.

4.3 Er bod rhai'n cydnabod y gallai llwyfannau llai o faint gael mwy o anawsterau wrth roi'r egwyddorion ar waith, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn pe bai llwyfannau mwy o faint yn rhoi'r egwyddorion ar waith, y gallai hyn gael effaith sylweddol ac annog cwmnïau o'r fath i ddangos arweinyddiaeth drwy wneud yr un peth.

4.4 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cyfeirio at ffyrdd penodol y gallai Ofcom annog llwyfannau i ddefnyddio'r egwyddorion yn eu gwaith:

a) **Defnyddio ysgogiadau cadarnhaol a negyddol:** Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith y gallai Ofcom fanteisio ar ei enw da fel rheoleiddiwr drwy dynnu sylw at arferion da a dangos yr Elw ar Fuddsoddiad posibl i lwyfannau pe baent yn rhoi'r egwyddorion ar waith. Awgrymwyd hefyd y gallai Ofcom ehangu ei raglen o ddigwyddiadau i arddangos a chydnabod enghreifftiau o fentrau llwyddiannus yn y DU. Yn yr un modd, awgrymwyd y gellid defnyddio ysgogiadau negyddol mewn perthynas â risgiau ariannol ac enw da ar gyfer llwyfannau nad oeddent yn rhoi'r egwyddorion ar waith.

b) **Rhannu gwybodaeth:** Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod rhannu gwybodaeth a thryloywder yn allweddol i fabwysiadu'r egwyddorion a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Gallai rhagor o eglurder a phwyslais ar lwyfannau'n dysgu oddi wrth ei gilydd helpu i nodi beth mae llwyddiant yn ei olygu a chefnogi gwaith Ofcom os nad yw'n ymddangos bod llwyfannau penodol yn gweithredu'r ymyriadau yn unol â'r egwyddorion.

c) **Datblygu glasbrint:** Gallai Ofcom hefyd nodi'r camau penodol y dylai llwyfannau fod yn eu cymryd i ddangos eu hymrwymiad i'r egwyddorion. Yn benodol, awgrymodd un ymatebydd y dylai Ofcom ddatblygu llyfr chwarae sy'n rhoi manylion y camau y gall llwyfannau eu cymryd i roi egwyddorion arfer gorau ar waith. Awgrymwyd hefyd y dylai Ofcom, fel rhan o'r glasbrint hwn, annog mesur 'llwyddiant' i hwyluso'r gwaith o asesu gwaith llwyfannau.

**Y PRIF NEGESEUON**

- Bydd Ofcom yn gweithredu fel grym cynnull a dylanwadu i feithrin diwylliant o ddysgu ar y cyd rhwng rhanddeiliaid.
- Dylai Ofcom dynnu sylw at yr agweddau cadarnhaol ar weithredu ymyriadau ar-lwyfan er mwyn annog llwyfannau i'w rhoi ar waith. Yn yr un modd, dylai Ofcom fod yn glir ynghylch y risgiau i lwyfannau nad ydynt yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion.

- Dylai Ofcom roi rhagor o fanylion am ystyr ‘llwyddiant’ a sut gall llwyfannau weithredu ac ymrwymo i’r egwyddorion yn eu gwaith.

# 5. Monitro, gwerthuso a thryloywder

5.1 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith bod angen i lwyfannau fod yn fwy tryloyw ynghylch sbardunau newid, eu proses gwneud penderfyniadau ac effaith ymyriadau. Yn benodol, ystyriwyd bod diffyg data sydd ar gael i'r cyhoedd ar ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn rhwystr rhag gwneud cynnydd o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddylunio.

5.2 Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai llwyfannau fod yn fwy tryloyw ynghylch y ffaith bod angen ymyriadau o ystyried bod y rhain yn creu gwrthdaro ac yn peri risg o darfu ar ddefnyddwyr. Er mwyn monitro a gwerthuso'n llwyddiannus, roedd nifer o ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am ddiffiniad clir o'r hyn y mae llwyddiant ac effeithiolrwydd yn ei olygu a sut beth ydyn nhw o'r cychwyn cyntaf. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai ymyriad llwyddiannus adlewyrchu'r tair prif thema sy'n strwythuro'r egwyddorion (hy blaenoriaeth, tryloywder ac atebolrwydd; dyluniadau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac ymyriadau amserol; a monitro a gwerthuso). O ran gwerthuso, nodwyd y dylai Ofcom annog llwyfannau i ddefnyddio dull rhyngddisgyblaethol i wneud unrhyw asesiad yn fwy ystyrlon. Roedd dull cyson o weithredu ar gyfer Monitro a Gwerthuso ar draws llwyfannau hefyd yn cael ei ystyried fel ffordd o wneud iawn am y diffyg metrigau safonol drwy greu cronfa ehangach o ddata cymaradwy.

5.3 Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn galw am ddull gweithredu mwy trylwyr o ran Monitro a Gwerthuso er mwyn helpu i ddeall effaith hydredol ymyriadau, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch ystyriaethau moesegol. Yn benodol, roedd y ffaith nad yw llwyfannau'n glir ynghylch sut maen nhw'n Monitro ac yn Datblygu yn cael ei hystyried yn risg bosibl i ddefnyddwyr. Dyna pam mae ymatebwyr academaidd o'r farn y dylai llwyfannau fod yn dryloyw ynghylch eu safonau moesegol a'u proses eu hunain.

## Rôl rhannu gwybodaeth

5.4 Roedd rhannu gwybodaeth hefyd yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o strategaeth lwyddiannus ar gyfer Monitro a Gwerthuso. Roedd ceisiadau ymatebwyr i wella yn y maes hwn yn cynnwys ceisiadau i werthuso effaith ar grwpiau defnyddwyr penodol, ceisiadau i gynnal archwiliadau annibynnol o ymyriadau a cheisiadau i gyhoeddi adroddiadau rheolaidd sy'n cael eu rhaeadru a'u cyhoeddi mewn ffyrdd hawdd eu defnyddio. Hefyd, awgrymwyd y dylai llwyfannau adrodd eu canlyniadau i Ofcom.

5.5 Er bod y pwyslais hwn ar yr angen am ddulliau Monitro a Gwerthuso mwy cadarn a thryloyw yn cael ei gefnogi gan y rhan fwyaf o ymatebwyr nad oeddent yn llwyfannau, tynnodd y llwyfannau sylw at y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth yn well. Yn benodol, roedd Google o'r farn bod Ofcom yn gosod y 'bar yn rhy uchel' gan eu bod yn poeni y gallai ailadrodd a gwella ymyriadau olygu bod angen cynnal asesiad risg ar gyfer pob newid o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Ar ben hynny, roedd Google o'r farn y gallai rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus lesteirio arloesedd a chynlluniau busnes ar gyfer llwyfannau, ac felly galwodd am ddull gweithredu ysgafnach.

## Y PRIF NEGESEUON

- Roedd rhai ymatebwyr wedi galw am i lwyfannau fod yn fwy tryloyw ynghylch effaith ymyriadau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau ar-lwyfan gan fod diffyg data yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgu ar y cyd.
- Roedd llwyfannau’n poeni am y risgiau posibl ar gyfer arloesi a chynlluniau busnes pe bai canlyniadau Monitro a Gwerthuso yn cael eu rhannu’n eang.

# 6. Bod yn rhagweithiol a rôl rhanddeiliaid allanol

6.1 Roedd llawer o ymatebwyr yn galw am ddull mwy rhagweithiol o ymdrin ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lwyfan.

6.2 Yn achos camwybodaeth a thwyllwybodaeth, tynnodd ymatebwyr sylw at werth ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lwyfan fel elfennau posibl strategaethau tanseilio[10] i fynd i'r afael â'r niwed penodol hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a dynnodd sylw at y pwynt penodol hwn yn cytuno ag egwyddor 1 sef bod angen i lwyfannau wneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn flaenoriaeth strategol ynddi'i hun.

6.3 I helpu i fod mor rhagweithiol â hyn, pwysleisiwyd rôl arbenigwyr. Nododd rhai cyfranogwyr y gallai llwyfannau elwa o ymgysylltu ag arbenigwyr allanol, archwilwyr, a lleisiau dibynadwy (gallai hyn gynnwys goroeswyr, y rheini sydd â phrofiad bywyd, ac ati) i oresgyn unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r metrigau ar-lein sydd ar gael.

**Y PRIF NEGESEUON**

- Gallai agwedd llwyfannau at ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fod yn fwy rhagweithiol, gan ei gwneud yn flaenoriaeth strategol ynddi'i hun.
- Gall arbenigwyr allanol, archwilwyr a lleisiau dibynadwy helpu llwyfannau i feddwl am ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn ffordd fwy rhagweithiol lle gallai data fod yn gyfyngedig neu'n annibynadwy.

[10]Y broses o chwalu celwyddau, tactegau neu ffynonellau cyn iddynt ledaenu'n eang / dechrau dylanwadu ar bobl (ee gallai hyn fod ar ffurf fideo i addysgu pobl am dactegau dylanwadu ar lwyfan rhannu fideos, label sy'n annog pwyll ar ganlyniadau chwilio neu droshaen i ysgogi pobl i feddwl yn feirniadol ar gyfryngau cymdeithasol).

# 7. Ymyriadau wedi'u teilwra

7.1 Er bod rhai cyfranogwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen safonau dylunio cyffredinol ar draws llwyfannau, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn galw am deilwra ymyriadau ar-lwyfan ymhellach i fynd i'r afael ag anghenion penodol ac er mwyn ymgysylltu ymhellach â grwpiau defnyddwyr perthnasol.

7.2 Er bod llawer o gyfranogwyr nad oeddent yn ymwneud â llwyfannau yn annog teilwra ymyriadau, nododd rhai hefyd fod preifatrwydd a phryderon moesegol yn gysylltiedig â'r arfer penodol hwn. Yn yr un modd, roedd Google yn rhannu pryderon am ymyriadau personol a greddfol a allai olygu bod angen 'casglu data sylweddol' gan ddefnyddwyr yng nghyd-destun y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a Chod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Y PRIF NEGESEUON**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn galw am deilwra ymyriadau ar-lwyfan ymhellach i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Mynegodd llwyfannau bryderon am oblygiadau hyn o ran preifatrwydd.

# A1. Diffiniadau ar gyfer ymyriadau o fewn y cwmpas

Canfu ymchwil ddesg, a gynhaliwyd yn fewnol gan dîm MSOM rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2022, bum math presennol o ymyriadau ar-lwyfan ar draws 23 o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, chwilio a gemau ar-lein:

- **Labeli:** yn cael eu rhoi ar ddarnau unigol o gynnwys, canlyniadau chwilio a chyfrifon; rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr wrth iddynt edrych ar y cynnwys, y canlyniad chwilio neu'r cyfrif; gallant gyfeirio at / cysylltu ag adnoddau ychwanegol gyda rhagor o wybodaeth neu gymorth.
- **Troshaenau:** yn cael eu rhoi ar ddarnau unigol o gynnwys a chanlyniadau chwilio; rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr cyn iddynt weld y cynnwys neu'r canlyniad chwilio; gallant nodi dewisiadau gwylio'n benodol; gallant gyfeirio at / cysylltu ag adnoddau ychwanegol gyda rhagor o wybodaeth neu gymorth.
- **Sbardunau / ffenestri naid:** gwasanaeth i ddefnyddwyr yn seiliedig ar weithredoedd / ymddygiadau gwirioneddol neu bosibl neu newidiadau i lwyfannau; rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr am eu gweithredoedd / ymddygiadau neu newidiadau i lwyfannau; gallant nodi gweithredoedd / dewisiadau ymddygiad yn benodol; gallant gyfeirio at / cysylltu ag adnoddau ychwanegol gyda rhagor o wybodaeth neu gymorth.
- **Hysbysiadau:** yn cael eu cyflwyno i ddefnyddwyr ar sail gweithredoedd / ymddygiadau gwirioneddol neu newidiadau i lwyfannau drwy eu ffrwd hysbysu; rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr am weithredoedd / ymddygiadau neu newidiadau i lwyfannau; gallant gyfeirio at / cysylltu ag adnoddau ychwanegol gyda rhagor o wybodaeth neu gymorth.
- **Adnoddau:** adnoddau fideo, delweddau neu destun sy'n cael eu cyflwyno i ddefnyddwyr drwy eu ffrydiau cynnwys; rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr i lywio gweithredoedd / ymddygiadau yn y dyfodol; gallant gyfeirio at / cysylltu ag adnoddau ychwanegol gyda rhagor o wybodaeth neu gymorth.

*Ffigur 1: Modelau enghreifftiol o ymyriadau o fewn y cwmpas*

